CRYNODEB

Talu am Ofal yng Nghymru

Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar yr opsiynau ar gyfer diwygio

Gall fod angen gofal a chymorth ar unrhyw un ohonom rywbryd yn ein bywydau. Ond sut y dylem dalu amdano?

Mae'r system bresennol o dalu am ofal i bobl hŷn ac anabl ar waith ers 60 mlynedd, ac mae angen iddi newid er mwyn bodloni'r galw cynyddol a disgwyliadau uwch. Rydym am greu system sy'n symlach, yn decach ac yn fwy fforddiadwy i unigolion, eu teuluoedd a llywodraeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am glywed eich barn chi ar sut y dylem dalu am ofal yn y dyfodol.

Cafodd 'Talu am Ofal yng Nghymru: creu system deg a chynaliadwy' ei gyhoeddi ar 16 Tachwedd 2009. Mae'n nodi nifer o opsiynau ar gyfer diwygio'r system bresennol ynghyd â phrif fanteision ac anfanteision pob un. Mae gennych tan 28 Chwefror 2010 i roi sylwadau ar yr opsiynau hyn a dweud wrthym pa fodel a fydd yn gweithio orau yng Nghymru yn eich barn chi.

I gael gwybod rhagor, ac i ddweud eich dweud, ewch i www.taluamofalyngnghymru.net neu anfonwch e-bost i payingforcare@wales.gsi.gov.uk.

Cefndir

Beth yw gofal a chymorth?

Mae a wnelo gofal a chymorth â chael help gyda phethau fel gofal personol a thasgau beunyddiol, fel y gallwch barhau i fyw'n annibynnol.

Caiff rhywfaint o ofal ei ddarparu mewn cartrefi preswyl neu nyrsio, ond caiff y rhan fwyaf ei ddarparu yng nghartrefi pobl eu hunain. Caiff cryn dipyn o ofal a chymorth ei ddarparu yn anffurfiol gan deuluoedd, ffrindiau a chymdogion.

Sut y telir amdano?

Mae hyn yn dibynnu. Y GIG sy'n talu am ofal iechyd hirdymor. Ond mae'n rhaid talu am wasanaethau cymdeithasol, a'ch cyngor lleol sy'n penderfynu faint mae'n rhaid i chi ei dalu yn seiliedig ar eich incwm a'ch cynilion. Os bydd rhaid i chi gael gofal preswyl bydd y cyngor hefyd yn ystyried gwerth unrhyw eiddo rydych yn berchen arno. Gall pobl hefyd gael budd-daliadau lles.

Pam bod angen i hyn newid?

Am fod mwy ohonom yn byw'n hirach a bod llai o bobl o oedran gweithio a all gyfrannu drwy eu trethi. Hefyd, mae ein disgwyliadau yn uwch ac rydym yn mynnu cael gwasanaethau o ansawdd uwch fel y gallwn fyw bywydau mwy annibynnol a bodlon. Mae hyn yn golygu y bydd angen mwy o arian ar gyfer gofal yn y dyfodol.

Beth yw rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y system gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chaiff gwasanaethau

cymdeithasol eu darparu gan awdurdodau lleol (cynghorau) ar lefel leol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu strategaeth unigryw i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth newydd i sicrhau mwy o gysondeb o ran y ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau cymdeithasol a ddarperir yn y cartref, ac i helpu gofalwyr.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Comisiwn i edrych ar ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, a fydd yn ystyried sut y gallai gwasanaethau cymdeithasol ateb yr heriau a wynebir dros y degawd nesaf. Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad Papur Gwyrdd hwn wrth lunio ei argymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ynghylch cyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad ar y rhain erbyn hydref 2010.

Er mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol yng Nghymru, Llywodraeth San Steffan (y DU) sy'n bennaf cyfrifol am y dulliau o newid y system o dalu am ofal, ac mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn cwmpasu Lloegr yn ogystal â Chymru. Cafodd yr opsiynau a gyflwynir yn y Papur Gwyrdd eu datblygu gan Lywodraeth y DU (sy'n cynnal ymgynghoriad ar wahân yn Lloegr). Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried goblygiadau'r cynigion hyn i Gymru, a lleisio barn glir o safbwynt Cymru ar sut y dylid newid y system. Rydym am geisio dod i gytundeb ym mhob rhan o gymdeithas ar y dewis opsiwn a dyna pam mae eich safbwyntiau mor bwysig.

Talu am ofal yng Nghymru: y ddadl hyd yn hyn

Y llynedd, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen ymgynghori ac ymgysylltu fawr ar gyfeiriad cyffredinol unrhyw gamau diwygio. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad

hwnnw wedi helpu i lunio barn Llywodraeth y Cynulliad ar y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyrdd.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid; yng Nghaerdydd a Llandudno. Rhoddwyd cyfleoedd i'r cyhoedd ymateb drwy'r post, drwy e-bost, neu mewn digwyddiadau a drefnwyd gan randdeiliaid lleol.

Hefyd, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Grŵp Cynghori Rhanddeiliad i ystyried opsiynau polisi mewn perthynas â gwneud trefniadau tecach a mwy cynaliadwy ar gyfer talu am ofal. Roedd y Grŵp Cynghori yn cynnwys sefydliadau ac unigolion a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl anabl, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, llywodraeth leol ac iechyd, perchenogion cartrefi gofal, a phobl hŷn.

Lluniodd y Grŵp Cynghori y gyfres ganlynol o egwyddorion, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad.

Credai fod angen i unrhyw system newydd o dalu am ofal wneud y canlynol:

- bod yn benodol am hawliau dynol;
- cynorthwyo'r unigolyn pan fo angen y cymorth arno;
- sicrhau bod penderfyniadau am ddarparu gofal yn cael eu gwneud ar sail anghenion yr unigolyn ac nid ar sail adnoddau ariannol neu asedau eraill yr unigolyn neu berthnasau;
- bod yn syml, h.y. yn hawdd i ddefnyddwyr a darparwyr ei deall a'i gweithredu;
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac annibyniaeth;
- hyrwyddo triniaeth deg a chyfartal;

- hyrwyddo cyfranogiad yr unigolyn a'r broses o'i rymuso;
- sicrhau bod darparwyr yn atebol a bod y rhai hynny sy'n derbyn y gwasanaeth yn gallu mynegi eu barn a'u cwynion;
- bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol, a dangos gonestrwydd o ran y defnydd o arian cyhoeddus.

I ba raddau y mae pob un o'r opsiynau ar gyfer diwygio a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn yn adlewyrchu'r egwyddorion sylfaenol a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliad Cymru?

Gweddnewid Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn seiliedig ar y gred bod angen i ni ddatblygu atebion sy'n unigryw i Gymru mewn perthynas â'r heriau a wynebir yng Nghymru. Bydd llywodraeth leol yn parhau i fod wrth wraidd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'r gwasanaethau hynny yn seiliedig ar y syniad o wasanaeth teuluol integredig sy'n hyrwyddo annibyniaeth, camau ataliol ac ymyriadau cynharach fel bod gwasanaethau diogel a hyblyg o ansawdd uchel ar gael i bawb sydd eu hangen.

Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

Cafodd strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol,* ei chyhoeddi yn 2007.

Prif themâu'r strategaeth yw:

- yr angen i wasanaethau cymdeithasol gael **arweinyddiaeth atebol, gref** yn wleidyddol, yn broffesiynol ac yn rheolaethol;
- datblygu'r gallu i newid ac **atgyfnerthu'r gweithlu** ar gyfer anghenion modern;
- sicrhau bod **llais y defnyddiwr a'r gofalwr** wir yn cyfrif;
- symleiddio dulliau **rheoli perfformiad** drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, gwella systemau rheoli perfformiad a gwybodaeth am berfformiad, mireinio prosesau caffael ac adolygu rheoliadau/adolygu'r broses reoleiddiol*;

- hyrwyddo **partneriaethau cryfach** sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac sy'n sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i'w gwaith;
- **cydweithio** er mwyn **sicrhau mwy o effeithlonrwydd** ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau;
- gweithio i **atgyfnerthu cymunedau.**

Mae'r strategaeth yn cynnwys rhai egwyddorion allweddol sy'n ategu ein barn:

- **llywodraeth leol** fydd yn **gyfrifol** am wasanaethau cymdeithasol o hyd gan weithio gydag eraill i gefnogi pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo cynhwysiant;
- bydd gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant yn **parhau i fod yn gorff arweiniol proffesiynol** fel bod teuluoedd yn cael eu cefnogi'n briodol;
- mae angen i wasanaethau gael eu **hailgydbwyso tuag at gymryd camau ataliol ac ymyrryd yn gynt**, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y rhai sydd â'r anghenion gofal mwyaf
- dylai awdurdodau lleol barhau i fod yn brynwyr ac yn ddarparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gomisiynwyr chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o **helpu i lunio'r farchnad gymysg** o ofal preifat, cyhoeddus a gwirfoddol;
- mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i weithlu amrywiol gyflwyno'r modelau gwasanaeth newydd ond sy'n sicrhau bod **gwaith cymdeithasol yn dal i fod yn alwedigaeth hyfforddedig a medrus iawn** a ategir gan amrywiaeth o rolau;
- **rhaid i wasanaethau cymdeithasol weithio'n agos â sectorau eraill** fel gwasanaethau tai, ac yn arbennig y GIG.

A ydych yn cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru?
A ddylid ei chryfhau neu ei diwygio mewn unrhyw ffordd?
A ydym wedi nodi'r holl faterion allweddol?
A oes unrhyw faterion y dylem eu hychwanegu, neu roi mwy o bwyslais arnynt?

Atebion yng Nghymru i Heriau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n datblygu rhaglen ddeddfwriaethol unigryw ac arloesol i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yn unol â'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys:

- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer Gofalwyr er mwyn darparu'r pwerau sydd eu hangen i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn, a Mesur y Cynulliad ar Ofalwyr er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n bwysig i ofalwyr.
- Mesur Plant a Theuluoedd sy'n pennu cyfeiriad clir ar gyfer nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella ansawdd bywyd plant a theuluoedd difreintiedig ledled Cymru a rhoi cyfle cyfartal iddynt.
- Mesur y Cynulliad a fydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n sicrhau mwy o gysondeb a thegwch mewn perthynas â chodi ffioedd am wasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl ledled Cymru.

Drwy'r rheoliadau hyn ar gyfer codi ffioedd, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno Pecyn Gwella Camau Cyntaf cychwynnol o gamau gweithredu. Bydd y pecyn yn cynnwys rheoliadau sy'n:

- nodi **uchafswm o £50 yr wythnos** i'w dalu;

- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol **ddiystyried rhai budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd** a roddir i bobl â lefelau uchel o anabledd wrth asesu'r gallu i dalu ffi resymol;
- **atal awdurdodau rhag codi tâl am gludo unigolion i ganolfannau dydd;**
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno **gweithdrefn ar gyfer adolygu ffioedd**.

Ar 29 Medi 2009 cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno yn Lloegr a fyddai'n golygu bod gofal personol yn y cartref yn rhad ac am ddim i'r holl oedolion hynny sydd â'r lefel uchaf o anghenion gofal. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fu sicrhau dull tecach a mwy cyson o godi tâl ar y bobl hynny sy'n derbyn gofal gartref ac yn y gymuned. Fe'i cymhwyswyd yn gyffredinol i bawb sy'n derbyn gwasanaethau. Mae'r polisi wedi sicrhau gwelliannau yn enwedig i'r rhai ar incwm isel. Os cytunir ar ein deddfwriaeth newydd byddwn yn cyflwyno uchafswm o £50 yr wythnos i'w dalu ledled Cymru yn ogystal â gofynion eraill er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Credwn fod ein dull o weithredu yn decach ac yn fwy buddiol i nifer ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau na dim ond canolbwyntio ar y rhai â'r lefel uchaf o anghenion gofal.

Beth yw eich barn chi ar y dull o godi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fabwysiadu? Sut mae'n cymharu â chynigion y Prif Weinidog ar gyfer Lloegr?

Gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau

Rydym yn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Datblygu fframwaith i sicrhau gwell proses o ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn. Caiff hyn ei gwblhau yn 2010 a bydd yn darparu cyd-destun i'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau lleol er mwyn adlewyrchu anghenion lleol.
- Ystyried sut y gall y cynllun gofal cartref am ddim am chwe wythnos gael ei gynnig mewn ffordd fwy cyson ac effeithiol i helpu pobl i ailafael yn eu hannibyniaeth a chael gwasanaethau gofal canolraddol eraill.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith asesu anghenion gofal cyffredin fel ei fod yn adlewyrchu'n briodol egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn esgor ar ganlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Annog awdurdodau lleol i ddatblygu ymhellach eu strategaethau gwybodaeth eu hunain ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio arfer gorau o bob cwr o Gymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu polisïau gofal unigryw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru.
- Ystyried pa waith pellach sydd angen ei wneud er mwyn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys a oes angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.

A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr hyn a gynigir?

Heriau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

Ymhlith y prif heriau a chyfleoedd a welwn wrth i ni barhau i anelu at ragoriaeth a gwelliant parhaus o ran gwasanaethau cymdeithasol Cymru mae:

- sicrhau bod y cynnydd a wnaed dros y degawd diwethaf yn cael ei gynnal;
- mynd i'r afael â'r arferion a'r amrywiadau annerbyniol mewn perfformiad sy'n parhau i fodoli mewn gormod o fannau;
- bod yn eglur ynghylch cyfrifoldeb lleol am wella gwasanaethau;
- adolygu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio, a'r safonau gofynnol cenedlaethol;
- ymestyn ac atgyfnerthu cydweithio;
- darparu mwy o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cefnogi annibyniaeth;
- arweinyddiaeth broffesiynol glir;
- croesawu economi gymysg o ran gofal cymdeithasol;
- datblygu a gwerthfawrogi'r gweithlu;
- cynnal a gwella gwasanaethau mewn hinsawdd ariannol sector cyhoeddus anodd.

A ydym wedi nodi'r heriau cywir?

Comisiwn ar Ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu sefydlu Comisiwn i edrych ar ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, a fydd yn ystyried sut y gall gwasanaethau cymdeithasol ateb yr heriau a wynebir dros y degawd nesaf. Bydd hyn yn

ystyried sut y gallwn wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- sicrhau gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau;
- cefnogi'r broses o ddatblygu arfer proffesiynol ymhellach;
- adeiladu gwasanaethau cymdeithasol cynhwysol yn seiliedig ar gyfraniad pob partner sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol;
- gwella'r cydweithio rhwng partneriaid;
- sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol integredig yn cael eu darparu a all ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion a phobl hŷn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau erbyn hydref 2010.

Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn wrth lunio ei argymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ynghylch cyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol.

Pa faterion yr hoffech i'r Comisiwn fynd i'r afael â hwy?

Model Newydd ar gyfer Ariannu Gofal

Beth mae'r Llywodraeth yn ei gynnig?

Costau i bobl sy'n anabl yn gynnar yn eu bywydau

Mae pobl sy'n cael eu geni'n anabl neu sy'n anabl yn gynnar yn eu bywydau yn debygol o fod ar incwm is, ac ar hyn o bryd felly mae'n debygol mai'r wladwriaeth sy'n talu am eu gofal a'r cymorth a gânt. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd hyn yn parhau o dan system newydd.

A ydych yn credu ei bod yn iawn i'r wladwriaeth barhau i dalu am ofal a chymorth y rhan fwyaf o bobl sy'n anabl yn gynnar yn eu bywydau?

Help i bawb sy'n gymwys am ofal a chymorth

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU am ddefnyddio'r arian a geir yn y system ofal i sicrhau bod pawb sy'n gymwys am ofal a chymorth yn cael rhywfaint o help i dalu am eu gofal.

Yn eich barn chi, ai dyma'r man cychwyn cywir yng Nghymru?

Budd-daliadau i bobl anabl

Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu bod achos dros integreiddio rhai o'r budd-daliadau a delir i bobl anabl, megis y Lwfans Gweini, yn y system gofal a chymorth. Mae systemau budd-daliadau gofal cymdeithasol ac

anabledd wedi datblygu ar wahân dros y 60 mlynedd diwethaf, ac fe'u dyrennir ar sail wahanol. Cred y Llywodraeth y gall hyn esgor ar ganlyniadau anghyson ac annheg. Mae am uno'r ddwy system fel y gellir defnyddio arian y wladwriaeth yn fwy effeithiol.

Beth yw eich barn chi am y posibilrwydd o wneud budd-daliadau pobl anabl, megis y Lwfans Gweini, yn rhan o'r system ariannu gofal cymdeithasol?

Cyflwyno arian newydd i'r system

Yn ogystal â sicrhau bod yr holl arian a geir yn y system ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, mae hefyd angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno mwy o arian i'r system.

Cred Llywodraeth y DU y dylai'r ffordd newydd o dalu am ofal fod yn seiliedig ar y syniad o bartneriaeth rhwng yr unigolyn a'r Llywodraeth.

Mae hyn yn golygu y byddai cyfran o gostau pawb sy'n gymwys am ofal a chymorth yn cael eu talu gan y Llywodraeth, ond byddai'n rhaid iddynt dalu'r gweddill eu hunain. Byddai'r swm y byddai'n rhaid i bobl ei gyfrannu yn dibynnu ar faint y gallent ei fforddio.

Y dewis syml yw p'un a ddylem adael i bobl benderfynu a ydynt am ddiogelu eu hunain rhag costau gofal uchel, neu p'un a ddylem fynnu eu bod yn rhan o gynllun a fyddai'n eu diogelu.

Argymhellodd Grŵp Cynghori Cymru a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ystyried talu am ofal y dylai cyfraniadau fod yn ofynnol i bawb sy'n gwneud gwaith â

thâl, ac roedd o'r farn bod gan y Llywodraeth ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau bod y cynllun yn cael ei redeg yn effeithiol.

Yn eich barn chi, beth yw'r dull cywir o weithredu mewn partneriaeth rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn yng Nghymru?

A ydych yn cytuno â chasgliad Grŵp Cynghori Cymru fod gan y wladwriaeth ran ganolog i'w chwarae? Neu a ydych yn credu y byddai pobl Cymru am gael mwy o ryddid i wneud eu trefniadau eu hunain i ddiogelu eu hunain rhag costau gofal uchel?

Y pum prif opsiwn ariannu

Mae Llywodraeth y DU wedi ystyried manteision ac anfanteision y pum opsiwn ariannu.

Beth yw eich barn chi ar yr opsiynau ariannu amrywiol? Yn eich barn chi, i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'r egwyddorion a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Cymru, ac â'r nodau a nodwyd ar ddechrau'r bennod hon?

Opsiwn 1: Talu amdanoch Chi'ch Hun

O dan yr opsiwn hwn, byddech yn gyfrifol am dalu am eich gofal a'ch cymorth eich hun pan fo'i angen arnoch. Diystyriwyd hyn oherwydd byddai'n golygu na fyddai llawer o bobl yn cael y gofal na'r cymorth sydd ei angen

arnynt, ac mae'n annheg yn y bôn oherwydd ni all pobl ragweld pa ofal y bydd ei angen arnynt.

Rydym wedi cytuno i ddiystyried yr opsiwn Talu amdanoch Chi'ch Hun. A ydych yn cytuno?

Opsiwn 2: Trethiant

O dan yr opsiwn hwn, trethiant cyffredinol a fyddai'n talu am gostau gofal. Diystyriwyd hyn oherwydd byddai angen cynyddu'r dreth y mae pobl yn ei thalu eisoes yn sylweddol (oherwydd byddai treth yn ariannu pob math o ofal, gan gynnwys y rhannau y mae pobl yn talu amdanynt eu hunain pan fo'u hangen ar hyn o bryd). Byddai hefyd yn gosod rhan fawr o'r baich o dalu am ofal a chymorth ar bobl sy'n gweithio.

A ydych yn cytuno nad yw talu costau llawn yr holl ofal a chymorth drwy drethiant yn opsiwn dichonadwy ar gyfer y dyfodol?

Opsiwn 3: Partneriaeth

Mae'r opsiwn hwn yn rhan o sylfaen y tri opsiwn sy'n cael eu ffafrio gan Lywodraeth y DU ar gyfer system ariannu newydd. Byddai gan bawb, waeth beth fo'u cyfoeth ac yr aseswyd bod angen gofal arnynt, yr hawl i ddisgwyl i'r wladwriaeth dalu am gyfran o'u costau. Er enghraifft, gallai'r wladwriaeth dalu am chwarter neu draean o gostau gofal pawb. Y tu hwnt i'r swm hwnnw, byddai pobl yn talu tuag at eu costau'n uniongyrchol drwy eu hincwm a'u hasedau eu hunain, fel y maent yn ei wneud nawr.

Ni fyddai'r opsiwn Partneriaeth ei hun yn diogelu pobl yn llawn rhag y risg o orfod talu costau uchel tuag at eu gofal. Ond byddai mwy o gostau gofal yn cael eu talu ar gyfer pobl sy'n llai cefnog, a byddai'r bobl sydd leiaf cefnog yn parhau i gael eu holl ofal am ddim.

Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Partneriaeth ar ei ben ei hun yn ddigonol i ddiwygio'r system mewn modd teg a chynaliadwy?

Mae'r ddau opsiwn olaf yn adeiladu ar yr opsiwn Partneriaeth. Maent yn cynnwys y ffyrdd y gallai pobl dalu am weddill eu costau gofal (h.y. y gyfran y byddai'n rhaid iddynt ei hariannu eu hunain).

Opsiwn 4: Yswiriant

Gallai pobl ddewis trefnu yswiriant rhag ofn bod angen gofal arnynt yn y dyfodol. Pan fyddai angen gofal arnynt, byddai'r Llywodraeth yn talu cyfran o'r costau o dan yr opsiwn Partneriaeth, a byddai'r yswiriant yn talu am y gweddill. Gallai pobl naill ai dalu i mewn i gynlluniau yswiriant preifat, neu gynllun yswiriant wedi'i gefnogi gan y Llywodraeth. Gallai pobl dalu mewn sawl ffordd wahanol, cyn neu ar ôl ymddeol, neu ar ôl iddynt farw os byddai'n well ganddynt wneud hynny.

Byddai pobl o oedran gweithio na allent fforddio trefnu yswiriant yn cael gofal a chymorth am ddim.

Yn eich barn chi a fyddai'r opsiwn Yswiriant yn gweithio'n dda i Gymru ar y cyd â'r opsiwn Partneriaeth? Beth yw manteision ac anfanteision yr opsiwn hwn?

Opsiwn 5: Cynhwysfawr

O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i bawb sydd dros oedran ymddeol a oedd â'r adnoddau i wneud hynny yn talu i mewn i gynllun yswiriant y wladwriaeth. Yna byddai gofal a chymorth ar gael am ddim i bobl pan fo'i angen arnynt.

Gallai'r swm y byddai'n rhaid i bobl ei dalu amrywio yn dibynnu ar beth y gallent ei fforddio. Neu gellid pennu swm penodol fel bod pobl yn gwybod faint yr oedd angen iddynt ei gynilo. Gallai pobl ddewis talu'r swm hwn yn ystod eu bywyd gweithiol, ar ffurf cyfandaliad neu mewn rhandaliadau yn ystod eu hymddeoliad, neu hyd yn oed o'u hystâd ar ôl iddynt farw. Byddai'r wladwriaeth yn talu cyfraniadau pobl na allent fforddio talu i mewn i'r system.

Am fod pawb yn y system, byddai pobl yn gallu talu llai na'u costau cyfartalog tebygol.

Yn eich barn chi a fyddai'r opsiwn Cynhwysfawr yn gweithio'n dda i Gymru ar y cyd â'r opsiwn Partneriaeth? Beth yw manteision ac anfanteision yr opsiwn hwn?

Gallai'r Llywodraeth ystyried pennu cyfradd is ar gyfer cyplau oherwydd gall y costau i ddau fod yn uchel iawn a bydd llawer o gyplau yn cynorthwyo ei gilydd ac yn gofalu am ei gilydd. Fodd bynnag, pe baem yn gwneud hyn, byddai angen i ni wneud y cyfraniadau'n uwch i bobl sengl.

Pe mabwysiedid yr opsiwn Cynhwysfawr, a ddylai cyplau dalu llai, yn eich barn chi?

Ffyrdd o gyfrannu

Gallai pobl dalu eu cyfraniadau mewn ffyrdd amrywiol, naill ai ar gyfer yr opsiwn Yswiriant neu'r opsiwn Cynhwysfawr. Gallai pobl ddewis sut i dalu, yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n addas iddynt hwy.

Pe bai gan rywun gynilion, efallai y byddai'n well ganddo dalu ei gyfraniad ar ffurf cyfandaliad ar ôl ymddeol. Pe bai rhywun yn gallu gohirio ei ymddeoliad, efallai y byddai'n penderfynu gohirio Pensiwn y Wladwriaeth am ychydig flynyddoedd a defnyddio'r arian i gyfrannu at y cynllun. Gallai pobl dalu mewn rhandaliadau fforddiadwy drwy gydol eu hymddeoliad. Pe na bai rhywun am dalu unrhyw beth yn ystod ei fywyd, gallai ohirio'r taliad cyfan hyd nes iddo farw, ac yna ei dalu o'i ystâd. Neu gallem gyfuno'r opsiynau hyn fel y gallai pobl dalu rhan ar ffurf cyfandaliad drwy eu pensiwn a rhan mewn rhandaliadau drwy gydol eu hymddeoliad.

Gwyddom y byddai llawer o bobl yn hoffi gallu dechrau paratoi cyn iddynt ymddeol. Felly, wrth i'r system ddatblygu, byddem yn ystyried cyflwyno opsiynau sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl wneud eu cyfraniad yn ystod eu bywydau gweithiol.

A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallai pobl gyfrannu at y system hon? Beth fyddai'r ffordd hawsaf i bobl dalu?

Costau llety

Mae'n bwysig nodi mai dim ond ystyried costau gofal pobl a wna'r opsiynau y mae Llywodraeth y DU wedi eu cyflwyno. Ni chaiff costau llety y bobl hynny mewn gofal preswyl eu talu gan y wladwriaeth. Mae hyn yn cynnwys

pethau fel costau bwyd a llety, costau glanhau'r ystafell, darparu bwyd a golchi dillad. Y rheswm dros hyn yw bod y costau hyn yn rhan normal o fywydau pawb, waeth p'un a oes angen gofal arnynt ai peidio. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bobl yng Nghymru sydd â chynilion neu sy'n berchen ar dŷ gwerth mwy na £22,000, ac nad yw eu partner na'u priod yn byw yn eu cartref, gyfrannu at gostau eu llety.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig dull talu gohiriedig cyffredinol ar gyfer gofal preswyl a chostau llety. Golyga hyn pan fydd rhywun yn dewis mynd i gartref gofal, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r costau llawn ar unwaith. Caiff taliadau gohiriedig eu cynnig gan lawer o awdurdodau lleol eisoes fel ffordd o alluogi pobl i dalu am eu costau gofal a llety mewn cartref gofal drwy eu hystâd ar ôl iddynt farw, yn hytrach na gorfod gwerthu eu cartref ar unwaith.

Cred Llywodraeth y Cynulliad y dylai'r opsiwn i ohirio taliadau gofal a llety fod ar gael i bawb. Mae hwn yn fater y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu cyflwyno deddfwriaeth arno wedi'i theilwra i amgylchiadau Cymru.

A fyddai'r hawl i ohirio taliadau gofal a llety mewn perthynas â gofal preswyl yn flaenoriaeth i bobl Cymru?

Bod yn deg i bobl sydd wedi cynilo

Gwyddom fod pobl yn teimlo'n gryf ynghylch y syniad bod yn rhaid iddynt dalu mwy os ydynt yn gweithio'n galed ac yn cynilo na phe baent yn dewis gwario eu holl arian a pheidio â thrafferthu cynilo.

Sut y gallem gydbwyso system sy'n helpu pawb sydd ei angen (waeth pa mor gefnog ydynt) ag un sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi gweithio'n galed a chynilo?

System ariannu a bennir yn genedlaethol neu'n lleol

Un o'r prif gwestiynau y mae angen i ni ei ateb yw a ddylai pobl gael yr un lefel o gymorth ariannol gyda'u gofal a chymorth ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru, neu a yw'n dderbyniol i bobl mewn rhannau gwahanol o Gymru gael lefelau gwahanol o gymorth hyd yn oed os oes ganddynt yr un anghenion.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru a ymatebodd i'n hymgynghoriad cynharach eu bod am gael system genedlaethol (Cymru gyfan), ond mae angen cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio gwasanaethau yn lleol. Yn y modd hwn, gallant ymateb i'r hyn sydd ei angen ar bobl mewn ardal, adlewyrchu amgylchiadau lleol ac annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau.

Un opsiwn fyddai i Lywodraeth y Cynulliad, neu Lywodraeth y DU benderfynu ar faint o arian y dylai pobl ei gael yn ganolog. Gellid sefydlu system a fyddai'n rhoi'r un swm o arian i bawb â'r un lefel o angen waeth ble roeddent yn byw yng Nghymru. Neu gallem gyflwyno system genedlaethol a fyddai'n rhoi symiau ychydig yn wahanol i bobl yn dibynnu ar ble roeddent yn byw yng Nghymru er mwyn rhoi cyfrif am y costau gofal a chymorth gwahanol ledled y wlad.

Yn eich barn chi, a ddylid cyflwyno system i Gymru gyfan ar gyfer penderfynu pwy sy'n cael pa lefelau o gymorth? Yn eich barn chi, sut y byddai hyn yn cydweddu â chyfrifoldebau llywodraeth leol (gan weithio gydag asiantaethau eraill) wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yng Nghymru?

Yn eich barn chi, a ddylai'r un system fod yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu a ddylai fod system wahanol yng Nghymru? Yn eich barn chi, pa broblemau sy'n deillio o'r opsiynau hyn?

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rhagor o gopïau a fformatau hawdd eu deall

Gellir cael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen ymgynghori drwy anfon e-bost i payingforcare@wales.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 029 2082 5681.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Talu am Ofal ar y rhif uchod.

Os hoffech gael copi caled, cysylltwch â'r Tîm Talu am Ofal ar y rhif uchod.

Sut y gall fy sefydliad gymryd rhan?

Byddwn yn cynnal tri digwyddiad ymgynghori cenedlaethol i randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Anfonwyd gwahoddiadau i'r rhain i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a gofynnwyd i'r awdurdodau anfon grŵp cynrychioliadol o'u hardal leol. Anfonwyd gwahoddiadau i sefydliadau cenedlaethol hefyd sydd â buddiant o ran talu am ofal.

Os ydych yn aelod o sefydliad neu grŵp buddiant, mae'n bosibl y byddwch am gyfrannu at ei ddadl ei hun ar opsiynau'r Papur Gwyrdd.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried yr holl ymatebion sy'n dod i law yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Caiff adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd, ei gyhoeddi ar y wefan hon ychydig wythnosau ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Yna bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU, a chyda Gweinidogion o'r Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn dod i gytundeb ar yr hyn sy'n gweithio orau i ddinasyddion o bob cwr o'r DU.

Pan wneir penderfyniad ar y ffordd orau o weithredu, caiff Papur Gwyn ei lunio yn nodi cynigion ar gyfer y dyfodol. Gan y byddai hyn yn broses ddiwygio fawr, byddai angen cyflwyno'r newidiadau'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

Sut y caiff fy sylwadau eu defnyddio?

Dim ond i lywio cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU o ran newid y system o dalu am ofal y defnyddir eich sylwadau. Bydd eich sylwadau yn ffurfio'r cynigion a nodir mewn Papur Gwyn yn y pen draw. Caiff yr ymatebion eu crynhoi yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, a gyhoeddir ar y wefan. Ni chaiff unrhyw sylwadau eu priodoli i unigolion.